# Codi pryder am fudiad sydd wedi ymgeisio i ni neu dderbyn arian gennym

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

## Cyflwyniad

Gall unrhyw un godi pryderon am fudiad sydd wedi ymgeisio i ni neu dderbyn arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Fel ceidwad arian cyhoeddus, byddwn bob amser yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cyfryw bryderon, ac mae gennym brosesau i sicrhau yr ymchwilir iddynt yn drwyadl.

Mae'r arweiniad hwn yn esbonio sut i godi pryder a sut y byddwn yn delio ag ef.

## Beth gallwn ni ystyried trwy'r broses hon?

Gallwn ystyried pryderon am y canlynol yn unig:

- cais cyfredol am ariannu, neu
- honiadau ynghylch torri amodau a thelerau cytundeb ariannu cyfredol.

Os ydych yn codi pryderon am benderfyniad a wnaed gennym ni i ariannu mudiad, byddwn yn adolygu'r wybodaeth rydych yn ei darparu ac yn ystyried p'un a fyddai wedi effeithio ar ein penderfyniad ai beidio. Sylwer, fodd bynnag:

- ni allwn gymryd rhan mewn sgwrs am unrhyw anghytundeb sydd gennych gyda phenderfyniad ariannu penodol oni bai ei fod yn ymwneud â thorri amodau a thelerau'r ariannu
- ni allwn ymwneud ag unrhyw anghydfod personol sydd gennych gyda mudiad penodol. Os yw eich pryder yn anghydfod personol dylech gyfeirio hyn at y mudiad dan sylw
- er y gallwn gymryd camau i ymchwilio i weithredu'n groes i gytundeb ariannu, ni allwn orfodi'r gyfraith. Os yw eich pryder yn ymwneud â thorri'r gyfraith, dylech ystyried codi'r mater gyda'r corff rheoleiddio perthnasol
- neu, yn achos materion troseddol, gyda'r heddlu.

## Codi pryderon

Os dymunwch godi unrhyw bryderon cysylltwch â'n tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid ar **0300 123 0735** neu anfonwch e-bost i cymru@cronfagymunedolylg.org.uk

## Ymateb i'ch pryderon

Nid ydym yn darparu gwybodaeth gyhoeddus am ein gweithdrefnau ymchwilio. Byddai gwneud hynny'n galluogi mudiadau i osgoi ein gwiriadau ac yn amharu ar ein gallu i ddiogelu arian cyhoeddus.

Gan hynny, mae'n annhebygol y bydd modd i ni roi unrhyw wybodaeth i chi am gynnydd neu ganlyniad unrhyw ymchwiliad a gynhaliwn.

## Hawliau i gyfrinachedd

Fel rhan o adolygu gwybodaeth mae'n bosib y bydd angen i ni gysylltu â'r mudiad rydym wedi'i ariannu. Yn y cyfryw achos byddwn yn parchu eich anhysbysrwydd. Byddwn yn anrhydeddu unrhyw geisiadau penodol sydd gennych mewn perthynas â chyfrinachedd.

Yn yr un modd, os ydych yn gweithio i'r mudiad rydych yn codi pryderon amdano, neu rydych yn gyswllt a enwir ar gais neu gytundeb ariannu, ac rydych am i ni gadw eich manylion yn gyfrinachol, rhowch wybod i ni am hyn ar yr amser y byddwch yn codi pob pryder gyda ni. Bydd eich cais yn cael ei barchu, er eich bod o dan ddyletswydd gytundebol i'n hysbysu am unrhyw ddigwyddiad neu arfer a allai amharu ar lwyddiant y prosiect neu fod yn gyfystyr â chamddefnyddio arian cyhoeddus.

Os byddwn yn derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu y gallai pobl unigol fod mewn perygl, mae'n bosib y bydd angen i ni rannu'r wybodaeth honno gyda'r heddlu neu awdurdodau priodol eraill. Yn y cyfryw achosion, byddem yn parhau i gymryd camau i gynnal eich cyfrinachedd.

BLF18_055